| Person Perthnasol | Ymchwiliad | Dyddiad rhoi hysbysiad penderfynu | Canfyddiadau a dyfarniad y Comisiynydd |
|---|---|---|---|
| Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru | **CS1345** Cyflwynodd aelod o'r cyhoedd gŵyn ar ôl methu talu dirwy goryrru yn Gymraeg. Creodd cwyn yr achwynydd amheuaeth nad oedd Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru yn cydymffurfio gyda safon 52 gan nad oedd modd newid o'r wefan Saesneg i dudalen gyfatebol ar y wefan Gymraeg. | 09/01/2026 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Yn dilyn ystyried cwyn yr achwynydd a thystiolaeth y sefydliad rydym yn dyfarnu na wnaeth y sefydliad cydymffurfio gyda safon 52 ac rydym wedi gosod cam gorfodi i fynd i'r afael gyda hynny.<br><br>Safon 52 – Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach**<br>Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br><br>1. Rhaid i Brif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru nodi'n glir ar bob tudalen Saesneg o'r wefan GanBwyll sy'n cyfateb i dudalen Gymraeg, bod y dudalen ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol, yn eglur a hygyrch at y dudalen Gymraeg, er mwyn galluogi defnyddwyr i newid rhwng y Gymraeg a'r Saesneg yn rhwydd.<br><br>Amserlen: O fewn mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. |
| Cyngor Caerdydd | **CS1353** Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd ynghylch methiant i ddarparu gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn wrth drefnu | 09/01/2026 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 10.<br><br>Ar ôl ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r sefydliad rydym o'r farn bod Cyngor |

| | | |
|---|---|---|
| | apwyntiad ar gyfer cofrestru genedigaeth. | Caerdydd wedi methu cydymffurfio gyda safon 10. Sail y penderfyniad yw bod y Cyngor wedi methu delio gyda galwad yr achwynydd yn ei chyfanrwydd yn Gymraeg yn unol â'i dymuniad.<br><br>Safon 10 – Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach**<br>Safon 10: Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br><br>Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, ac yn unol â'r canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol hefyd.<br><br>1. Rhaid i Gyngor Caerdydd baratoi cynllun gweithredu drafft at y diben o sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio gyda safon 10 wrth ateb galwadau i Uned Gofrestru'r Cyngor.<br><br>Dylai'r cynllun gynnwys y wybodaeth ganlynol:<br>- Disgrifiad clir o'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod defnyddwyr sydd yn dewis gwasanaeth cofrestru yn Gymraeg yn derbyn y gwasanaeth Cymraeg hwnnw dros y ffôn ar bob achlysur.<br>- Manylion cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer pob cam, gan gynnwys unrhyw gerrig milltir berthnasol.<br>- Adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r camau hyn (e.e. cyllid, staff). |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Dylai'r cynllun hefyd gynnwys camau i sicrhau bod y Cyngor yn:<br>- Ystyried agweddau megis hyfforddiant staff, cynlluniau datblygu personol, adolygu swydd-ddisgrifiadau a manylebau person, a threfniadau recriwtio a dethol.<br>- Cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 10 o fewn 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.<br><br>Amserlen: Rhaid i Gyngor Caerdydd lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. |
| Swyddfa Archwilio Cymru | **CS1329** Honnir bod mwyafrif o'r e-bost a anfonwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru at Glerc Cyngor Cymuned benodol, yn Saesneg yn unig. | 08/01/2026 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safon 1 a safon 2.<br><br>Ar ôl ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r sefydliad rydym o'r farn bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi methu cydymffurfio gyda safonau 1 a 2. Sail y penderfyniad yw iddo fethu a chydymffurfio gyda'r dewis iaith a gofnodwyd ar y system a sicrhau bod gohebiaeth Gymraeg yn cael ei anfon at yr achwynydd wedi iddo wneud hi'n hysbys ei fod yn dymuno derbyn gohebiaeth yn Gymraeg.<br><br>Safon 1 – Methiant<br>Safon 2 – Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br><br>Nododd Swyddfa Archwilio Cymru ei fod eisoes wedi gweithredu'r camau canlynol:<br>i) Rhoi nodyn atgoffa i'r holl staff am y gofynion iaith wrth gyfathrebu â chyrff a archwilir, fel y nodir yn y polisi iaith Gymraeg;<br>ii) Sicrhau bod y gofynion hyn yn rhan o hyfforddiant staff;<br>iii) Atgoffa staff perthnasol yn uniongyrchol o'r angen i wirio a dilyn dewisiadau iaith.<br><br>1. Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru ddarparu tystiolaeth bod y camau a gymerwyd ganddo uchod wedi eu cymryd.<br>2. Rhaid i Swyddfa Archwilio Cymru (yn ychwanegol at yr uchod) ddarparu canllaw clir i'w staff yn amlinellu'r broses fewnol o gofnodi dewis iaith a delio gyda gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn unol â gofynion y safonau gohebu.<br><br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. |
| Gweinidogion Cymru | **CS1309** Cyflwynwyd y gŵyn hon ynghylch platfform TeacherBooker, a weithredwyd ar ran Gweinidogion Cymru fel rhan o gynllun peilot ar gyfer y Gronfa Gyflenwi Cenedlaethol yn sir Ynys Môn. Mae'r cytundeb bellach wedi ei derfynu a Gweinidogion Cymru yn | 16/12/2025 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Canfu'r ymchwiliad fod methiannau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg mewn sawl agwedd ar y gwasanaeth, gan gynnwys gohebiaeth, rhyngwynebau, a'r broses recriwtio. Er nad oes gwerth ymarferol mewn gosod camau gorfodi penodol ar gyfer y cynllun hwn – gan fod y cynllun wedi dod i ben ac nad oes gan Weinidogion Cymru gytundeb arall ar waith gyda'r cwmni dan sylw – mae'r |

| | |
|---|---|
| gweithio gyda Chyngor Ynys Môn dros gyfnod pontio i ddod â'r cynllun peilot i ben. | ymchwiliad wedi amlygu diffygion sylfaenol yn y trefniadau monitro gan Weinidogion Cymru wrth weithredu cytundebau trwy drydydd parti.<br><br>Er bod camau wedi'u cymryd i gynnwys gofynion Safonau yn y broses dendro, mae'n glir bod y cyfrifoldeb am sicrhau cydymffurfiaeth yn parhau gyda'r corff cyhoeddus. Mae'r ymchwiliad wedi dangos y peryglon o beidio â chael trefniadau monitro cadarn yn eu lle. O ganlyniad, mae cam gorfodi wedi'i osod i ofyn i Weinidogion Cymru adolygu ac ystyried eu trefniadau monitro ar gyfer cytundebau trydydd parti yn y dyfodol, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg drwy gydol oes cytundebau.<br><br>Safon 1 – Methiant<br>Safon 2 – Methiant<br>Safon 5 – Methiant<br>Safon 52 – Methiant<br>Safon 56 – Methiant<br>Safon 139 – Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach**<br>1.Rhaid i Weinidogion Cymru adolygu eu trefniadau monitro ar gyfer cytundebau gyda thrydydd partïon, ac ystyried sefydlu proses ffurfiol i wirio cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg yn ystod oes y cytundeb, nid yn unig ar y cychwyn. Dylai'r broses gynnwys dull clir o nodi a mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau i ddarparwyr neu systemau sy'n gallu effeithio ar ddarpariaeth y Gymraeg.<br><br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | 2.Rhaid i Weinidogion Cymru ddiweddaru datganiad Ebrill 2025 am y pwll cyflenwi ar eu gwefan gyda manylion am y cynllun pontio a pryd fydd y cynllun yn dod i ben.<br><br>Amserlen: O fewn 1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>1. Argymhellir bod Gweinidogion Cymru yn rhannu gwybodaeth gyda defnyddwyr sydd wedi cofrestru ar y platfform peilot am y methiant i gydymffurfio â'r Safonau, ynghyd â manylion am y cyfnod pontio a phryd y daw i ben. Os nad yw'n bosibl i Weinidogion Cymru gysylltu â'r defnyddwyr yn uniongyrchol, dylent ofyn i Gyngor Ynys Môn wneud hynny ar eu rhan.<br><br>Amserlen: O fewn1 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. |
| Coleg Gwent | **CS1344** Roedd amheuaeth nad oedd Coleg Gwent wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried y Gymraeg wrth wneud y penderfyniad i ddod â'r cwrs Cymraeg safon uwch ar gampws Blaenau Gwent i ben. | 11/12/2025 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Ni ddangosodd y Coleg dystiolaeth ei fod wedi gwneud ymdrech gydwybodol i ystyried yr effeithiau posib ar y Gymraeg wrth wneud y penderfyniad. Nid oedd chwaith wedi ystyried sut i gynyddu effeithiau positif, na lleihau effeithiau andwyol ar y Gymraeg. Mae hyn yn fethiant i gydymffurfio gyda'r safonau llunio polisi.<br><br>Roedd amheuaeth hefyd nad oedd proses y Coleg o ymgynghori yn cydymffurfio'n llawn gyda'r safonau. Daeth i'r amlwg na wnaeth y Coleg gyhoeddi dogfen ymgynghori, |

ac felly nad oedd y safonau hyn yn berthnasol. Nid oedd methiant i gydymffurfio gyda'r safonau dogfen ymgynghori felly.

Safon 94 – Methiant
Safon 95 – Methiant
Safon 96 – Methiant
Safon 97 – Dim methiant
Safon 98 – Dim methiant
Safon 99 – Dim methiant

**Gweithredu Pellach**
Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
1. Rhaid i'r Coleg ddatblygu canllaw i staff sy'n egluro sut i gynnal asesiad effaith ar y Gymraeg yn unol â gofynion safonau'r Gymraeg. Rhaid i'r canllaw gyfeirio at:
- Yr angen i wneud ymdrech gydwybodol i ystyried y Gymraeg, gan egluro sut i fynd ati i wneud hynny.
- Yr angen i ystyried effeithiau positif ac andwyol ar y Gymraeg, a sut i gynyddu effeithiau positif, a lleihau effeithiau andwyol.
2. Rhaid i'r Coleg gynnal sesiwn hyfforddiant i aelodau staff sydd ynghlwm a phenderfyniadau polisi o fewn y maes adrefnu addysg, fydd yn egluro cynnwys y canllaw uchod, ac yn tynnu sylw at y methiannau i gydymffurfio yn yr achos yma.

Rhaid i'r Coleg ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1 a 2.

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol |
| Cyngor Dinas Casnewydd | **CS1326** Ni dderbyniodd yr achwynydd wasanaeth Cymraeg ar ôl ffonio'r Cyngor. Roedd hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 11.<br><br>Roedd rhannau o negeseuon awtomatig y Cyngor yn Saesneg yn unig. Roedd hyn yn fethiant i gydymffurfio â safon 8. | 11/11/2025 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Roedd ansicrwydd ynghylch proses y Cyngor o gynnig galwad yn nôl i gwsmeriaid ar y llinell Gymraeg yn unig. Mae'r ymchwiliad yn canfod nad yw hyn yn torri'r safonau gan fod y cwsmeriaid yn cadw eu lle yn y ciw.<br><br>Safon 8 – Methiant<br>Safon 11 – Methiant<br>Safon 17 – Dim Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach**<br>Gosod cam gorfodi yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>1. Rhaid i'r Cyngor addasu ei broses galw nôl fel nad yw swyddogion yn cofnodi bod y mater ar gau hyd nes bod ymdrech rhesymol wedi ei wneud i gael gafael ar y cwsmer. Gall hyn olygu ceisio ffonio'r cwsmer yn nôl fwy nag un waith pan mae wedi cyrraedd blaen y ciw.<br><br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.<br><br>Cyngor o dan adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011:<br>Dylai'r sefydliad ystyried ychwanegu at y neges awtomatig er mwyn rhoi amcangyfrif o'r amser y gallai'r cwsmer aros am yr alwad nôl. Gan fod gan y Cyngor ddata sy'n dangos yr amser aros cyfartalog, dylid cyfleu hyn i'r cwsmer er mwyn ei helpu i benderfynu ynghylch aros ar y llinell neu gael galwad yn nôl. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | **CS1328** Derbyniwyd cwyn yn honni diffyg darpariaeth Gymraeg mewn dosbarth ffitrwydd a gynhelir mewn canolfan hamdden benodol ar Ynys Môn. Nododd yr achwynydd fod yr hyfforddwr yn cynnal y dosbarthiadau yn Saesneg, er bod y mwyafrif o'r rhai oedd yn bresennol, yn nhyb yr achwynydd, yn siarad Cymraeg. | 04/11/2025 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Yn sgil yr ymchwiliad, ystyriwyd y wybodaeth a gyflwynwyd gan yr achwynydd a'r Cyngor. Ar sail y dystiolaeth, daethom i'r casgliad nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â Safon 36. Yn benodol, methodd y Cyngor â sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn digwyddiad cyhoeddus – sef y dosbarthiadau ffitrwydd dan sylw.<br><br>Safon 36 – Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach**<br>Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br><br>Rwy'n ei gwneud yn ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn i baratoi cynllun gweithredu drafft gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion safon 36, yn benodol mewn perthynas â'r dosbarthiadau ffitrwydd agored i'r cyhoedd a gynhelir yn y ganolfan hamdden dan sylw.<br><br>Dylai'r cynllun gynnwys y wybodaeth ganlynol:<br>- Disgrifiad clir o'r camau y bydd y Cyngor yn eu cymryd i sicrhau bod dosbarthiadau ffitrwydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.<br>- Manylion cyfrifoldeb ac atebolrwydd ar gyfer pob cam, gan gynnwys unrhyw gerrig milltir perthnasol.<br>- Adnoddau angenrheidiol i gyflawni'r camau hyn (e.e. cyllid, staff).<br><br>Dylai'r cynllun hefyd gynnwys camau i sicrhau bod y Cyngor yn: |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | - Cynnal ymarferiad i nodi pa ddosbarthiadau sy'n cael eu cynnal yn Saesneg yn unig, neu lle mai Saesneg yw prif iaith y ddarpariaeth.<br>- Ystyried agweddau megis hyfforddiant staff, cynlluniau datblygu personol, adolygu swydd-ddisgrifiadau a manylebau person, a threfniadau recriwtio a dethol.<br>- Cydymffurfio yn llawn gyda gofynion safon 36 o fewn 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cynllun gweithredu.<br><br>Amserlen: Rhaid i Gyngor Sir Ynys Môn lunio drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu a rhoi'r drafft hwnnw i'r Comisiynydd o fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi dyfarniad terfynol y Comisiynydd. |
| Cyngor Sir Ynys Môn | **CS1318** Derbyniwyd cwyn yn erbyn Cyngor Sir Ynys Môn yn honni nad oedd y Cyngor wedi cydymffurfio â Safonau Llunio Polisi 91, 92 a 93 wrth gyhoeddi dogfennau'n ymwneud ag ad-drefnu darpariaeth addysg ôl-16 yn y sir. Er bod y Cyngor wedi nodi mai cam ymgysylltu cychwynnol oedd y broses, roedd y dogfennau a gyhoeddwyd yn cynnwys opsiynau penodol ar gyfer newid y ddarpariaeth, ac yn ceisio barn y cyhoedd arnynt. | 22/10/2025 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Er bod y Cyngor yn honni mai proses 'ymgysylltu' oedd y broses, nid 'ymgynghori', mae'r Safonau Llunio Polisi (91–93) yn berthnasol i unrhyw ddogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi. Mae'r adroddiad yn pwysleisio bod y term 'yn ymwneud â' yn ehangu'r diffiniad, gan gynnwys unrhyw broses sydd â'r potensial i ddylanwadu ar benderfyniad polisi, hyd yn oed os nad yw'r penderfyniad wedi'i wneud eto.<br><br>Yn achos hwn, roedd y Cyngor yn ystyried opsiynau a allai newid strwythur darpariaeth addysg ôl-16 yn sylweddol. Yn y pen draw, dewiswyd un o'r opsiynau a gyflwynwyd yn ystod y broses, sef datblygu perthynas waith agosach rhwng darparwyr.<br><br>Er bod y Cyngor wedi defnyddio'r term "ymgysylltu", roedd natur y broses, cynnwys y dogfennau, a'r defnydd a wnaed |

o’r adborth yn cyfateb i broses ymgynghori. O ganlyniad, roedd disgwyl i’r Cyngor gydymffurfio â Safonau 91, 92 a 93, gan gynnwys darparu ystyriaeth fanwl o effaith yr opsiynau ar y Gymraeg.

Roedd y ffurflen ymateb yn cynnwys cwestiwn penodol am effaith y cynigion ar y Gymraeg, gan gynnwys cyfleoedd i’w defnyddio a’r egwyddor o beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. Fodd bynnag, daeth yr ymchwiliad i’r casgliad nad oedd y Cyngor wedi darparu dadansoddiad digonol o’r effeithiau posibl ar y Gymraeg. Nid oedd gwybodaeth am y ddarpariaeth Gymraeg bresennol, er enghraifft, nid oedd gwybodaeth am niferoedd dysgwyr sy’n astudio drwy’r Gymraeg, natur y pynciau a gynigir, nac effaith pob un o’r opsiynau ar y sefyllfa ieithyddol – y math o faterion gallai, o bosib, fod wedi cynorthwyo’r Cyngor i ystyried yn gydwybodol effeithiau’r cynigion ar y Gymraeg. Er i’r Cyngor gyhoeddi asesiad effaith iaith Gymraeg yn ddiweddarach, roedd hwn yn gyffredinol iawn, yn darparu atebion stoc am gwblhau asesiad effaith fwy cyflawn maes o law ac yn osgoi ystyried effeithiau penodol yr opsiynau a gyflwynwyd.

Roedd hyn yn groes i egwyddorion a nodwyd gan Dribiwnlys y Gymraeg, sy’n mynnu bod angen ystyriaeth gydwybodol ar gam cynnar unrhyw broses sy’n ymwneud â phenderfyniad polisi.

O ganlyniad, rydym wedi dod i’r casgliad bod y Cyngor wedi methu â chydymffurfio â Safonau 91, 92 a 93. Yn sgil y dyfarniad, rydym yn gosod gofyniad ar y Cyngor i ddiwygio eu gweithdrefnau a’u canllawiau mewn perthynas

ag ymgynghori ac ymgysylltu, er mwyn sicrhau bod ystyriaeth gydwybodol o'r Gymraeg yn digwydd ar gam cynnar unrhyw broses o'r fath.

Roedd natur gweithgarwch y Cyngor, cynnwys y dogfennau, a'r defnydd o adborth yn cyfateb i broses ymgynghori. Roedd gan yr opsiynau a gyflwynwyd y potensial i gael effaith sylweddol ar addysg ôl-16 ac ar y Gymraeg yn y Sir, ac felly roedd yn rhesymol disgwyl y byddai'r Safonau Iaith yn berthnasol.

Mae'r ymchwiliad hwn wedi atgyfnerthu unwaith eto pa mor hanfodol yw ystyried effaith ar y Gymraeg cyn gynted â phosibl wrth gynllunio polisi. Roedd gan broses y Cyngor y potensial i gyfyngu ar yr opsiynau a fyddai ar gael i ddefnyddwyr yn y dyfodol ym maes allweddol addysg ôl-16. Pe bai'r Cyngor wedi dewis un opsiwn penodol cyn codi materion yn ymwneud â'r Gymraeg, byddai'n rhy hwyr i'r defnyddwyr hynny allu ystyried y goblygiadau'n llawn.

Er mai cam cynnar yn y broses o lunio polisi addysg yn y sir oedd hwn, roedd yn hanfodol bod y Cyngor yn ystyried effaith y cynigion ar y Gymraeg yn ofalus ar y cam hwnnw, ac yn sicrhau bod y cyhoedd yn ymwybodol o'r ystyriaethau hynny. Mae'r safonau yn bodoli i sicrhau bod sefydliadau'n ymgynghori'n briodol â'r cyhoedd ynghylch effeithiau ar y Gymraeg, gan nodi'n glir pa effeithiau sydd wedi'u hystyried fel rhan o'r broses, a rhoi cyfle i'r cyhoedd i ystyried neu fynegi barn am yr effeithiau hynny.

Safon 91 – Methiant
Safon 92 – Methiant

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Safon 93 – Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach**<br>Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br><br>1. Rhaid i Gyngor Ynys Môn ddiwygio eu gweithdrefnau a chanllaw i staff o ran prosesau ymgynghori / ymgysylltu i sicrhau fod ystyriaeth gydwybodol o'r Gymraeg yn cael ei gwneud ar gam cychwynnol unrhyw broses ymgynghori neu ymgysylltu.<br><br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol. |
| Cyngor Caerdydd | **CS1278** Roedd cwyn yr achwynydd yn ymwneud â gwasanaeth ffôn Rhentu Doeth Cymru, sy'n cael ei gynnal gan Gyngor Caerdydd (y Cyngor). Cyflwynodd yr achwynydd gŵyn nad yw'r gwasanaeth yn darparu gwasanaeth ffôn Cymraeg sy'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ar bob achlysur. Nododd, ar adegau, fod galwadau'n cael eu trosglwyddo i beiriant ateb wrth ddewis yr opsiwn Cymraeg, os nad oes aelod o staff ar gael. Ar adegau eraill, mae'r alwad yn cael ei hateb gan aelod o staff di-Gymraeg nad | 14/10/2025 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Roedd y wybodaeth a gafwyd, ynghyd â phrofiad fy swyddog wrth geisio cysylltu â llinell ffôn Rhentu Doeth Cymru, yn codi amheuaeth ynghylch cydymffurfiaeth y gwasanaeth â Safonau'r Gymraeg ar bob achlysur.<br><br>Yn eu tystiolaeth wreiddiol, nododd y Cyngor eu bod wedi cymryd camau i wella sefyllfa'r ganolfan alwadau, gan gynnwys recriwtio mwy o staff yn ddiweddar i'r tîm sy'n derbyn galwadau. Eglurodd y Cyngor hefyd fod ganddynt weithdrefnau ar waith i fonitro a nodi bylchau yn eu gwasanaethau Cymraeg. Fodd bynnag, mewn ymateb i Adroddiad Drafft yr ymchwiliad, dywedodd y Cyngor fod y sefyllfa wedi newid oherwydd salwch a chyfnod prawf aflwyddiannus. Nodwyd bod hyn yn adlewyrchu'r her barhaus o ran recriwtio a chadw staff. |

yw'n ymddiheuro nac yn cydnabod yr ymgais i gyfathrebu yn Gymraeg.

Ar ôl ystyried tystiolaeth y Cyngor, yr achwynydd, a phrofiad fy swyddog, rwyf wedi dod i'r casgliad nad yw'r Cyngor wedi cydymffurfio â Safon 10. Nid wyf wedi fy argyhoeddi bod y Cyngor wedi sicrhau gwasanaeth ffôn Cymraeg ar bob achlysur ar linell Rhentu Doeth Cymru, nac eu bod ar hyn o bryd yn gallu gwneud hynny'n gyson.

Rwy'n fodlon, fodd bynnag, bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â Safonau 8 a 9, ac nad yw Safon 17 yn berthnasol yn yr achos hwn.

Rwy'n dymuno sicrhau bod gweithdrefn gadarn ar waith i ateb galwadau Cymraeg ar bob achlysur, heb ddibynnu'n rheolaidd ar negeseuon peiriant ateb – hyd yn oed pan fo heriau recriwtio'n codi.

Safon 8 – Dim methiant
Safon 9 – Dim methiant
Safon 10 – Methiant
Safon 17 – Dim methiant

**Gweithredu Pellach**
Gofyniad i baratoi cynllun gweithredu yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Disgwylir i unrhyw Gynllun Gweithredu gael ei baratoi a'i gwblhau yn unol â'r canllawiau sydd wedi eu gosod allan yn yr Adroddiad Ymchwiliad, y canllawiau cyffredinol sydd yn y Ddogfen Gyngor atodol ac yn unol â'r Templed Cynllun Gweithredu sydd hefyd wedi ei atodi.

1. Rhaid i Gyngor Caerdydd baratoi cynllun gweithredu cynhwysfawr, gyda'r nod o sicrhau cydymffurfiaeth lawn â Safon 10, gan gynnwys trefniadau, gweithdrefnau ac adnoddau staffio digonol i ddarparu gwasanaeth ffôn Rhentu Doeth Cymru heb ddibyniaeth ar negeseuon peiriant ateb yn ystod oriau gwaith.

Rhaid i'r cynllun gynnwys:
i) Adolygiad llawn o'r trefniadau presennol ar gyfer cydymffurfio â Safon 10, gan nodi unrhyw fylchau neu feysydd i'w gwella.
ii) Camau Clir sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn mynd ati i adfer cydymffurfiaeth, gan gynnwys:
• Ymrwymiad penodol i gategoreiddio swyddi perthnasol fel rhai lle mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol.
• Cynllun adnoddau dynol i sicrhau bod digon o staff ar gael i ddarparu'r gwasanaeth yn unol â'r Safon.
iii) Trefniadau llywodraethu a monitro, gan gynnwys:
• Enwi'r swyddog(ion) cyfrifol ac atebol am bob cam
• Rôl benodol i aelodau o'r Uwch Dîm Rheoli wrth graffu ar gynnydd.
• Amserlen fanwl ar gyfer cyflawni pob cam, gyda'r holl gamau i'w cwblhau o fewn 3 mis i gymeradwyo'r cynllun.
• Diweddariadau i Gomisiynydd y Gymraeg ar gynnydd y Cyngor ar y gwaith o fewn y cynllun bob deufis hyd ddiwedd cyfnod gwaith y cynllun.

Amserlen: Rhaid i'r Cyngor gyflwyno cynllun gweithredu drafft yn unol â gofynion Adran 80 Mesur y Gymraeg o fewn 1 mis o dderbyn yr hysbysiad penderfynu terfynol.

Argymhelliad yn unol ag adran 77 Mesur y

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Gymraeg (Cymru) 2011<br>Dylai'r Cyngor sicrhau eu bod yn manteisio ar bob platfform hysbysebu swyddi Cymraeg sydd ar gael, gan gynnwys unrhyw rai nad ydynt eisoes yn cael eu defnyddio.<br><br>Dylai'r Cyngor ystyried lleoliadau swyddfa'r gweithlu canolfan alwadau eto, gan gynnwys opsiynau mwy hyblyg megis gweithio o bell neu agor swyddfeydd rhanbarthol, cynlluniau cymhelliant i ddenu a chadw staff, cynlluniau lwfans sgiliau a chynllunio'n strategol ar gyfer y tymor hir yn y maes hwn.<br>Amserlen: Dylai'r Cyngor roi diweddariad ar y gwaith yma o fewn 3 mis |
| Cyngor Sir Gâr | **CS1327** Derbyniwyd cwyn gan aelod o'r cyhoedd am fethiant Cyngor Sir Gâr i ddarparu gwasanaeth ffôn yn Gymraeg. Ffoniodd yr achwynydd y llinell ffôn Theatrau Sir Gâr, a llinell swyddfa'r Cyngor gan dderbyn ymateb yn Saesneg. Ni chafodd gynnig rhagweithiol i siarad gyda rhywun yn Gymraeg.<br><br>Dywedwyd yn ogystal nad yw'r cyfeiriad canlynol ar gael yn Gymraeg: direct@carmarthenshire.gov.uk | 25/09/2025 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Y gofynion perthnasol dan sylw'r ymchwiliad yw safonau 8, 9, 10 a 81.<br><br>Ar ôl ystyried y wybodaeth a dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r sefydliad rydym o'r farn bod Cyngor Sir Gâr wedi methu cydymffurfio â safonau 9, 10 ac 81. Sail y penderfyniad yw bod y Cyngor:<br>i) ddim wedi rhoi gwybod i'r galwr ar y ffôn bod gwasanaeth Cymraeg ar gael<br>ii) na dderbyniodd yr achwynydd wasanaeth ffôn yn Gymraeg pan ffoniodd Ganolfan Gyswllt y Cyngor ar 12 Mawrth 2025<br>iii) na wnaeth y Cyngor hybu a hysbysebu'r gwasanaeth e-bost yn Gymraeg drwy fethu a darparu cyfeiriad Cymraeg i'r achwynydd. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Nid oeddem o’r farn bod methiant i gydymffurfio gyda safon 8 ar y sail y cyfarchwyd yr achwynydd yn Gymraeg ar y ddau achlysur y bu iddi ffonio’r Cyngor.<br><br>Safon 8 – Dim methiant<br>Safon 9 – Methiant<br>Safon 10 – Methiant<br>Safon 81 - Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach**<br>Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>1. Rhaid i Gyngor Sir Gâr godi ymwybyddiaeth ei holl staff o bwysigrwydd safonau’r Gymraeg, yn benodol:<br>i) y gofyniad i hysbysu personau sy’n ffonio’r Cyngor bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.<br>ii) Yr angen i hybu a hysbysebu pob gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig yn Gymraeg<br>iii) Sicrhau bod manylion cyswllt staff a’r Cyngor ar gael yn y Gymraeg yn weledol i bawb<br>Rhaid i Gyngor Sir Gâr ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy’n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau cam gorfodi 1.<br>Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi’r dyfarniad terfynol |
| Gweinidogion Cymru | **CS1313** Mae’r achwynydd yn honni nad oes modd gweld y fersiwn Gymraeg o’r teitl e-bost pan mae Cylchlythyr Trafnidiaeth Cymru yn cyrraedd ei fewnflwch. | 23/09/2025 | **Canfyddiadau’r Comisiynydd**<br>Y gofynion sy’n berthnasol i’r ymchwiliad yma yw safon 6, a cham gorfodi ymchwiliad CS1270. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Yn yr achos yma, roedd yr ohebiaeth dderbyniodd yr achwynydd yn trin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg am y rhesymau nododd yr achwynydd yn ei gŵyn, ac mae hynny yn groes i ofynion safon 6. Hefyd, fe wnaeth Gweinidogion Cymru fethu cyflawni camau gorfodi CS1270 drwy fethu sicrhau nad oedd raid i dderbynwyr y cylchlythyr gymryd camau ychwanegol i weld teitl yr e-bost yn Gymraeg.<br><br>Yn dilyn ymgynghori ar yr adroddiad drafft, fe gyflwynodd Gweinidogion Cymru dystiolaeth pellach eu bod wedi newid eu harferion a'u bod bellach yn defnyddio templed newydd sy'n gosod y Gymraeg yn gyntaf yn y teitl. Gan bod y sefydliad bellach wedi cymryd camau nesaf, nid oes angen i'r Comisiynydd gymryd camau pellach.<br><br>Safon 6 – Methiant<br>Cam gorfodi CS1270 - Methiant<br><br>**Gweithredu Pellach**<br>Ni fyddwn yn gweithredu ymhellach yn yr achos yma gan bod y sefydliad wedi cymryd camau i adfer cydymffurfiaeth drwy ddefnyddio templed newydd sy'n gosod teitl y cylchlythyr yn Gymraeg gyntaf. |
| Cyngor Bro Morgannwg | **CS1276** Cysylltodd yr achwynydd gyda'r Comisiynydd gan ei bod yn teimlo bod ei theulu yn cael eu trin yn annheg gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Bro Morgannwg gan na | 29/04/2025 | **Canfyddiadau'r Comisiynydd**<br>Darparodd y Cyngor wybodaeth oedd yn cadarnhau bod gohebiaeth ac atodiadau yn cael eu hanfon yn Saesneg yn gyntaf yn gyson oherwydd nad oedd eu trefniadau cyfieithu yn cyd-fynd gyda'r angen i anfon gohebiaeth a dogfennau mewn modd sy'n cadw at derfynau amser eraill y mae'n ofynnol i'r Cyngor gadw atynt. |

wnaethant ystyried eu dewis iaith pan gafodd y teulu eu cyfeirio at yr Adran.

Darparodd yr achwynydd nifer sylweddol o enghreifftiau i ddarlunio'r profiad gafodd y teulu wrth ddod i gyswllt gyda'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd hyn yn cynnwys enghreifftiau o ohebiaeth dderbyniwyd yn Saesneg yn unig neu yn Saesneg yn gyntaf gyda'r fersiwn Cymraeg yn dilyn ac enghreifftiau o gyfarfodydd gyda aelodau o'r teulu, gan gynnwys y plant, heb ddarpariaeth cyfieithu neu gyda threfniadau cyfieithu annigonol.

Roedd y wybodaeth dderbyniwyd gan y Cyngor yn cadarnhau nad oedd eu trefniadau cyfieithu mewn cyfarfodydd yn cyd-fynd gyda gofynion safonau'r Gymraeg.

Cododd y wybodaeth dderbyniwyd gan yr achwynydd amheuon am y modd mae'r Cyngor yn asesu sgiliau ieithyddol eu staff. Dangosodd y wybodaeth dderbyniwyd gan y Cyngor nad ydynt wedi asesu sgiliau iaith holl staff yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol fel sy'n ofynnol i gydymffurfio gyda safon 127.

Creodd profiad y teulu amheuon ynglŷn â threfniadau'r Cyngor i ddelio gyda chwynion am gydymffurfiaeth gyda safonau'r Gymraeg. Darparodd y Cyngor ddolen at weithdrefn gwynion nad oedd yn crybwyll safonau'r Gymraeg.

Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth dderbyniwyd gan yr achwynydd a'r sefydliad, rydym o'r farn bod y sefydliad wedi methu cydymffurfio gyda safonau 5, 6, 26, 26A, 29, 29A, 127 a 156 ac rydym wedi gosod camau gorfodi er mwyn iddynt adfer cydymffurfiaeth a sicrhau gwell darpariaeth i aelodau o'r cyhoedd yn y dyfodol.

Safon 5 – Methiant
Safon 6 – Methiant
Safon 26 – Methiant
Safon 26A – Methiant
Safon 2 – Methiant
Safon 29A – Methiant
Safon 127 – Methiant

Safon 156 – Methiant

**Gweithredu Pellach**

Safon 5 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

1. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg sefydlu neu addasu gweithdrefn er mwyn canfod ym mha iaith neu ieithoedd mae defnyddwyr gwasanaeth yn dymuno derbyn gohebiaeth. Rhaid i'r weithdrefn egluro, os nad ydynt yn gallu sefydlu dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth, bod rhaid gohebu yn Gymraeg hyd nes eu bod yn gwybod nad yw'r defnyddiwr gwasanaeth am dderbyn gohebiaeth yn Gymraeg.
2. Rhaid i'r Cyngor ddarparu hyfforddiant i staff perthnasol i godi ymwybyddiaeth o'r weithdrefn.
3. Rhaid i'r Cyngor adolygu ei drefniadau cyfieithu er mwyn ei alluogi i gyd-fynd gyda dyletswyddau eraill.
4. Rhaid i'r Cyngor sicrhau bod atodiadau Cymraeg yn cael eu hanfon yr un pryd ag atodiadau Saesneg wrth anfon gohebiaeth ac nad yw gohebiaeth Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na gohebiaeth Saesneg.
5. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 1-4.

Amserlen: O fewn 3 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

6. Rhaid i'r Cyngor adolygu ei weithdrefnau er mwyn sicrhau fod unigolion sy'n derbyn gwahoddiad i gyfarfod sy'n ymwneud â'u llesiant, yn derbyn cais clir a diamwys am ei ddymuniad i ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod a bod y dymuniad yma yn cael ei gofnodi.

7. Rhaid i’r Cyngor ddarparu canllawiau i staff sy’n trefnu cyfarfodydd sy’n ymwneud â llesiant er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio gyda safonau’r Gymraeg.

Rhaid i’r canllawiau roi sylw i’r canlynol:
• Pryd a sut y gofynnir i’r mynychwyr a ydynt yn dymuno defnyddio’r Gymraeg mewn cyfarfod.
• Sut y byddant yn hysbysu’r mynychwyr y byddant yn darparu yn unol â’r dymuniad hwnnw.
• Sut y bydd y Cyngor yn trefnu’r cyfarfod heb gymorth gwasanaeth cyfieithu
Neu
• Sut y dylai staff y Cyngor drefnu gwasanaeth cyfieithu os nad oes modd cynnal y cyfarfod heb gymorth cyfieithu.
• Pa bryd y mae angen trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg a pha bryd y mae angen trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o’r Gymraeg i’r Saesneg ac o’r Saesneg i’r Gymraeg.
• Cyngor i Gadeiryddion ar sut i gynnal cyfarfodydd lle defnyddir gwasanaeth cyfieithu.

8. Dylai’r Cyngor godi gynnal hyfforddiant i godi ymwybyddiaeth ei staff, gyda phwyslais arbennig ar staff sy’n ymwneud â gofal cymdeithasol a lles, o ofynion safonau 26, 26A, 29 a 29A ac i godi ymwybyddiaeth o’r canllawiau newydd.

Safon 127 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

9. Rhaid i’r Cyngor sicrhau bod ganddynt weithdrefn er mwyn asesu sgiliau Cymraeg ei holl gyflogeion ac mae’n rhaid i’r weithdrefn sicrhau bod y gofrestr yn cael ei chadw yn gyfredol.

Safon 156 - Gofyniad i gymryd camau yn unol ag adran 77 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

10. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ystyried y wybodaeth ym mharagraffau 8.1.4 i 8.1.11 o God Ymarfer Rheoliadau Rhif 1 Comisiynydd y Gymraeg er mwyn llunio gweithdrefn gwyno mewn perthynas gyda delio â chwynion am safonau'r Gymraeg.

11. Rhaid i Gyngor Bro Morgannwg ddarparu hyfforddiant i'r staff perthnasol er mwyn sicrhau gweithrediad y Weithdrefn Gwynion pan dderbynnir cwyn am safonau'r Gymraeg a sefydlu trefn reolaidd o atgoffa staff o'r trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion am y Gymraeg.

12. Rhaid i'r Cyngor ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig sy'n bodloni Comisiynydd y Gymraeg ei fod wedi cwblhau camau gorfodi 6-11.

Amserlen: O fewn 6 mis o ddyddiad cyhoeddi'r dyfarniad terfynol.

Safon 132: Argymhelliad o dan Adran 76(3) Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Dylai'r Cyngor ddarparu hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i godi ymwybyddiaeth staff o'r holl faterion sy'n gysylltiedig â'r achos.

Cyngor o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Rydym yn cynghori'r Cyngor i roi sylw i Fframwaith 'Mwy na Geiriau' a Chanllawiau'r Llywodraeth ar ddelio gyda chwynion am wasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas gyda delio â chwynion yn y Gymraeg.

| | |
|---|---|
| | Cyngor o dan Adran 4 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011<br>Rydym yn cynghori'r Cyngor godi ymwybyddiaeth ei staff, gyda phwyslais arbennig ar staff sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol a lles, o ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 mewn perthynas â'r Gymraeg. |